dros adferiad o afiechyd meddwl difrifol

hafal

for recovery from severe mental illness

Wrecsam

Adroddiad Blynyddol 2010-2011

- Cymorth i Deuluoedd Wrecsam Hafal (darparu cymorth i deuluoedd i fynd i'r afael gydag afiechyd meddwl difrifol o fewn y teulu)
- WOTS (cymorth tenantiaeth ar gyfer pobl yn eu cartrefi eu hunain)
- Breakaway (hwyluso seibiannau byr ar gyfer gofalwyr)
- Gwasanaeth Cyswllt Cymunedol (cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth ymwneud gyda'r Gwasanaeth Adferiad Gwasanaethau Cymdeithasol).

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn:

- Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cymunedol wedi bod yn hanfodol wrth ddod â newid i Dîm Adferiad Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam. Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi derbyn cymorth i leisio eu barn ar sut y dylai'r Tîm Adferiad gyflwyno ei wasanaeth ynghyd â chymryd rôl weithgar gyda chyfweld staff ar gyfer y tîm a chyflwyno safbwynt defnyddiwr gwasanaeth fel rhan integredig o hyfforddiant staff.
- Mae defnyddwyr gwasanaeth bellach yn ymwneud gyda'r holl broses o recriwtio staff ar gyfer Gwasanaeth Adferiad Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam.
- Mae yna hefyd defnyddwyr gwasanaeth yn chwarae rhan yn yr holl sesiynau hyfforddiant staff o fewn y Tîm Adferiad, gan gynnwys cynllunio'r cynnwys a chyflwyno'r sesiynau.
- Mae'r modd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn chwarae rhan wedi tyfu dros y flwyddyn ddiwethaf gyda mwy o bobl yn barod i fynychu seminarau a grwpiau ffocws, i ymwneud gyda chynllunio gweithgareddau ac ymgymryd â gwaith gwirfoddol. Mae yna symudiad wedi bod tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth yn cymryd perchnogaeth dros rai o'r gweithgareddau a oedd cynt yn cael eu hwyluso gan staff.
- Roedd deuddeg defnyddiwr gwasanaeth wedi ymweld â Thŷ Erddig a mwynhasant ddarganfod am hanes Wrecsam. Talwyd am y daith hon gan rodd oddi wrth Esgobaeth Llanelwy.
- Mynychodd y grŵp gofalwyr y cynhyrchiad 'Calendar Girls' yn Llandudno.
- Mynychodd un deg chwech o ofalwyr y cinio Nadolig yn yr Alyn Inn yn Rossett.
- Mwynhaodd un deg chwech o ofalwyr drip diwrnod i Swydd Gaerwrangon.
- Ymdrechodd ddefnyddwyr gwasanaeth ddŵr cyflym yn Bala wrth rafftio dŵr gwyn. Talwyd am y daith yma hefyd gan rodd oddi wrth Esgobaeth Llanelwy.
- Gwahoddwyd dau ddefnyddiwr gwasanaeth o Wasanaeth Cyswllt Cymunedol i'r Senedd fel gwestai Lesley Griffiths, AC Wrecsam, (gweler llun isod). Dilynodd y gwahoddiad gyfweliad a wnaethant gyda'r AC ar gyfer taflen newyddion y gwasanaeth.
- Mynychodd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr y diwrnod "Motiv8" blynyddol sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnig gwybodaeth am gyfleoedd lleol ar gyfer cyflogaeth ac addysg.
- Mynychodd defnyddwyr gwasanaeth grŵp ffilm i ddysgu sut i ddefnyddio cyfarpar ffilmio, i gynhyrchu fideo cerddoriaeth a gwneud rhaglenni dogfen byrion. Arweiniodd hyn at ddefnyddwyr gwasanaeth yn creu dau DVD sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion sefydlu a hyfforddi staff.
- Cychwynnodd dau o ofalwyr gyrsiau cyn-galwedigaethol mewn coleg lleol.
- Roedd pum defnyddiwr gwasanaeth wedi mynychu cynhadledd Rhaglen Fwrdd Iechyd Meddwl.
- Mae dau o'n defnyddwyr gwasanaeth ar hyn o bryd yn ymwneud gyda chyrsiau coleg. Mae un yn mwynhau cwrs mewn Adweitheg a'r llall yn Gwneuthuro a Weldio fel y gall ddysgu sut i drwsio ei feic modur.

Tŷ Luke O'Connor, Llys Barter, Barrack Field, Hightown,
WRECSAM, LL14 8QT
Ffôn: 01978 310936
e-bost: wrexhamfamilysupport@hafal.org

- Gweithiodd y Gwasanaeth Cyswllt Cymunedol mewn partneriaeth gyda'r prosiect Open Minds i gefnogi 18 o ddefnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at addysg.
- Mae wyth o'n defnyddwyr gwasanaeth yn ymgymryd â hyfforddiant achrededig gyda Chanolfan Dysgu Cenedlaethol Hafal.
- Mae chwech o'n defnyddwyr gwasanaeth yn cwblhau Rhaglen Hyfforddwr Claf Arbenigol ac maent yn barod i ddarparu hyfforddiant ar draws Gogledd Cymru.

Yn y Senedd gyda Lesley Griffiths AC